

Asesiad Abertawe o Lesiant Lleol 2017

Atodiad 3: Ynglŷn â'r Aseiad

Mae'r nodyn briffio hwn yn cyflwyno'r cefndir ar gyfer aseiad drafft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe o lesiant lleol a'r dull gweithredu a fabwysiadwyd. Mae'n nodi gofynion y ddeddfwriaeth, datblygiad ein canlyniadau a'n sbardunau 'llesiant' lleol, ac yn amlinellu ein proses gyffredinol o gasglu tystiolaeth hyd yma.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('y Ddeddf') yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn peri i lywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd lleol a chyrrff cyhoeddus penodol eraill yng Nghymru feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio atal problemau a gweithredu mewn modd mwy cydlynol.

Er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn rhoi saith nod llesiant ar waith.

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru sy'n fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Mae'r Ddeddf yn gofyn bod cyrrff cyhoeddus yn gwneud pethau i geisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddor datblygu cynaliadwy, h.y. gweithredu mewn modd sy'n ceisio "sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau". Mae'r Ddeddf hefyd:

- yn gofyn bod cyrrff cyhoeddus yn adrodd ynghylch gweithredu o'r fath;
- wedi sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i gynghori a chynorthwyo cyrrff cyhoeddus i weithredu'n unol â'r Ddeddf hon;
- wedi sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn ardaloedd awdurdodau lleol;
- yn cynnwys darpariaeth sy'n gofyn bod y byrddau hynny'n cynllunio ac yn gweithredu i geisio llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardal; ac at ddibenion cysylltiedig.

Y Gofyniad am Aseiad o Lesiant Lleol

Mae'r Ddeddf¹ yn pennu bod rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lunio a chyhoeddi cynllun llesiant lleol yn cyflwyno'i amcanion lleol a'r camau mae'n bwriadu eu cymryd i'w cyflawni. Rhaid cyhoeddi'r cynllun erbyn un flwyddyn wedi dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol, fan bellaf.

¹ Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted

Cyn hynny, fodd bynnag, mae rhaid i bob bwrdd “lunio a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn ei ardal”, ddim hwyrach na blwyddyn cyn y dyddiad y bwriedir cyhoeddi cynllun llesiant lleol.

Mae Adran 37 (3) o’r Ddeddf yn darparu eglurhad pellach ynghylch yr hyn sy’n ofynnol yn yr asesiad, yn yr ystyr bod rhaid iddo –

- (a) nodi pa ardaloedd cymunedol sy’n cael eu cwmpasu gan ardal y bwrdd;
- (b) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol unigol ac ar draws yr ardal gyfan;
- (c) cynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant pobl yn yr ardal;
- (ch) cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach y mae’r bwrdd yn ei gyflawni trwy gyfeirio at feini prawf a bennwyd ac a gymhwyswyd ganddo at ddiben asesu llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn yr ardal neu mewn unrhyw gymuned a leolir yn yr ardal;
- (d) cynnwys rhagfynegiadau ynghylch tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal;
- (dd) cynnwys unrhyw ddata dadansodol a gwybodaeth arall y mae’r bwrdd yn barnu eu bod yn briodol.

Mae adrannau dilynol Pennod 2 y Ddeddf yn amlinellu’r canlynol:

- pwyntiau cyfeiriadol ychwanegol ar gyfer yr asesiad, e.e. dangosyddion cenedlaethol, adroddiad ar dueddiadau’r dyfodol;
- y gofyniad i nodi ac asesu ardaloedd cymunedol;
- categorïau o bobl yr awgrymir y gallai’r dadansoddiad eu hystyried;
- gofynion o ran ymgynghori ar yr asesiad drafft; a
- chfres o asesiadau ac adolygiadau lleol a chenedlaethol eraill i’w hystyried.

Nod yr asesiad hwn yw darparu dadansoddiad cywir o gyflwr llesiant yn Abertawe yn ei chyfanrwydd ac ym mhob cymuned, a bydd y canfyddiadau a’r dadansoddiad yn cael effaith wrth bennu’r amcanion sydd i’w cyflwyno yn y cynllun llesiant lleol. Rhaid i’r bwrdd egluro yn ei gynllun llesiant lleol sut mae ei amcanion lleol ac unrhyw gamau mae’n bwriadu eu cymryd wedi cael eu pennu yng nghyswllt unrhyw faterion y cyfeirir atynt yn yr asesiad.

Beth yw llesiant?

Mae cysyniad ‘llesiant’ yn gymhleth, heb amheuaeth, ac mae llawer o ddisgrifiadau a dehongliadau posibl o’r term. Bydd gan bobl farn wahanol ynghylch ystyr llesiant iddyn nhw’n bersonol ac i’w cymunedau.

Fodd bynnag, at ddibenion y Ddeddf a’r canllawiau sy’n cyd-fynd â hi, mae Llywodraeth Cymru yn diffinio llesiant egluraf yn y dyfyniadau canlynol o “Rhannu Pwrpas; Rhannu Dyfodol (SPSF) Canllaw Craidd 1, adran 2 – yr hanfodion”:

17. Mae datblygu cynaliadwy yn ymwneud â chydabod bod llawer o bethau sy’n pennu ansawdd bywyd person (eu llesiant), ac y gallai’r rhain yn y lle cyntaf gael eu dosbarthu fel ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol. Mae’r rhain yn cael eu cynnwys yn y nodau llesiant. Mae hyn yn golygu y gallai gwella ansawdd ein hamgylchedd, ein heconomi, ein cymdeithas a’n diwylliant wella llesiant unigolion a Chymru yn gyffredinol.

20. Mae'n bwysig adnabod y gwahaniaeth rhwng llesiant Cymru a llesiant unigolion. Mae datblygiad cynaliadwy yn cysylltu'r amgylchedd rydym yn byw ynddo, yr economi rydym yn byw ynddi, y gymdeithas rydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau rydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywydau.

Ar y sail hon gellid diffinio llesiant (yn gryno) yn nhermau'r ffactorau amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol sy'n pennu ansawdd bywyd person. Fodd bynnag, er bod hynny'n ddefnyddiol fel math o ddiffiniad gwaith, nid yw'r berthynas rhwng llesiant ac ansawdd bywyd – er bod cyfatebiaeth rhyngddynt – yn uniongyrchol nac yn syml.

Datblygwyd diffiniad o lesiant gan Rachel Dodge et al yn 2012². Yno gwelir llesiant fel pwynt cydbwysu rhwng adnoddau unigolyn a'r heriau mae'n eu hwynebu yn ystod bywyd beunyddiol – a gyflëir ar ffurf si-so. Er enghraifft, pan fydd pobl yn wynebu heriau sy'n drech na'r adnoddau sydd ganddynt, mae'r si-so'n gogwyddo a'u lefel llesiant yn gostwng; tra byddai diffyg her i unigolyn hefyd yn achosi gostyngiad yn lefel eu llesiant.

Weithiau mae awdurdodau cyhoeddus yn diffinio neu'n egluro llesiant ar sail sut mae'n cael ei fesur; ar lefel genedlaethol, er enghraifft, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn asesu cynnydd y Deyrnas Unedig yn erbyn cyfres o 43 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol³, sy'n cynnwys agweddau ar iechyd, amgylchedd naturiol, cyllid personol a throseddau. Ar y sail hon, mae newid dros amser yn cael ei asesu i ganfod a yw llesiant cenedlaethol yn codi neu'n gostwng.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datblygu cyfres o 46 o ddangosyddion cenedlaethol yng nghyswllt llesiant yng Nghymru, fel sy'n ofynnol o dan adran 10(1) y Ddeddf, gan gwmpasu agweddau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol llesiant, at ddiben mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol⁴.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch llunio'r asesiadau o lesiant lleol wedi cael eu darparu ar sail statudol⁵ ac anstatudol⁶.

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe yn cydnabod y cysyniad o lesiant fel y'i diffinnir yn y Ddeddf a'r canllawiau; fodd bynnag, ein 'canlyniadau poblogaeth' lleol – a ddatblygwyd trwy broses helaeth o ymchwil ac ymgynghori – sy'n cynrychioli ein persbectif lleol ar ystyr llesiant yn Abertawe. Edrychir ymhellach ar hyn yn adrannau diweddarach o'r Atodiad hwn.

Cefndir ymagwedd Abertawe

O 2013 ymlaen, bu'r asesiad blynyddol o anghenion strategol yn darparu'r sylfaen o dystiolaeth ar gyfer Cynllun Integredig Sengl Abertawe – Cynllun Un Abertawe – o dan fframwaith blaenorol Llywodraeth Cymru ('*Cydamcanu, Cydymdrechu*').

² The challenge of defining wellbeing - Rachel Dodge, Annette P. Daly, Jan Huyton, Lalage D. Sanders, 2012.

³ Measuring National Well-being: Domains and Measures (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol): www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/datasets/measuringnationalwellbeingdomainsandmeasures

⁴ Dangosyddion Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Llywodraeth Cymru): <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/national-indicators/?lang=en>

⁵ Rhannu Pwrpas: Rhannu Dyfodol Pennod 2: rôl gydweithredol (byrddau gwasanaethau cyhoeddus) – canllawiau statudol ar gyfer asesiadau llesiant: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/statutory-guidance/?lang=en>

⁶ Canllawiau 'anstatudol' gan Lywodraeth Cymru ar y defnydd o dystiolaeth a dadansoddiad: <http://gov.wales/topics/improving-services/public-services-boards/?lang=en>

Cynhyrchwyd yr asesiadau hyn gan Fwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe (BGLI), partneriaeth a oedd yn cynnwys darparwyr gwasanaethau cyhoeddus Abertawe a chynrychiolwyr o'r sectorau gwirfoddol a busnes, a'r corff a oedd yn rhagflaenu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Roedd yr asesiadau o anghenion yn darparu dadansoddiad yng nghyswllt chwe chanlyniad poblogaeth, y nodwyd ac y cytunwyd arnynt gan BGLI Abertawe yn sail ar gyfer Cynllun Un Abertawe.

Roedd pob canlyniad yn tynnu ar ganfyddiadau '*Fair Society Healthy Lives*' (Adolygiad Marmot) – adolygiad annibynnol i gynnig y strategaethau mwyaf effeithiol seiliedig ar dystiolaeth i leihau anghydraddoldebau iechyd yn Lloegr. Defnyddiwyd yr amcanion polisi a gynigiwyd gan yr adolygiad hwn i helpu i lunio'r canlyniadau poblogaeth hyn.

Fodd bynnag, mae Deddf 2015 a'r canllawiau sy'n cyd-fynd â hi wedi creu fframwaith newydd i gyrrff cyhoeddus yng Nghymru wella llesiant eu hardaloedd; trwy asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol, ac yn ddiweddarach trwy bennu amcanion lleol, a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Diben craidd yr asesiad yw darparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer Cynllun Llesiant Abertawe, a ddatblygir yn y flwyddyn ar ôl cyhoeddi'r asesiad.

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe (BGC) a'r Grŵp Ymchwil

Partneriaeth o asiantaethau gwasanaethau cyhoeddus yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe, sy'n cydweithio i wella gwasanaethau lleol. Mae'n disodli'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI) gynt, ac yn cynnwys y prif ddarparwyr gwasanaeth lleol, er enghraifft, Dinas a Sir Abertawe, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heddlu De Cymru a'r prifysgolion lleol.

Ar hyn o bryd mae gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn Abertawe dri is-grŵp sefydlog; un o'r rhain yw'r Grŵp Ymchwil. Rôl sylfaenol y grŵp hwn ar hyn o bryd yw cyfrannu at ddatblygiad yr asesiad o lesiant lleol trwy wneud gwaith ymchwil. Mae'n cynnwys ymchwilwyr a dadansoddwyr o'r gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud â'r Bwrdd.

Mae gwaith ar yr asesiad o lesiant lleol wedi cael ei ddatblygu gan aelodau Grŵp Ymchwil BGC a chydweithwyr eraill mewn sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC. Er nad yw is-grwpiau'n gallu cyhoeddi'r asesiad yn uniongyrchol, dirprwyodd y BGC y Grŵp Ymchwil i arwain y gwaith o grynhoi a dadansoddi'r ystod o dystiolaeth a oedd wedi'i chynnwys yn yr asesiad.

Diagramau o'r sbardunau

Datblygwyd diagramau o'r sbardunau ar gyfer canlyniadau poblogaeth Abertawe yn y lle cyntaf ar gyfer defnydd lleol fel rhan o Gynllun Un Abertawe 2015, ac roeddent yn darparu'r strwythur ar gyfer y dystiolaeth a'r dangosyddion a ddefnyddiwyd yn yr asesiad blynyddol canlynol o anghenion strategol.

Mae diagram o'r sbardunau yn offeryn sy'n helpu i drosi nod gwelliant lefel uchel (neu 'ganlyniad' yn yr achos hwn) yn gyfres resymegol o nodau gwaelodol ('sbardunau') a phrosiectau. Y bwriad yw cyfleu rhaglen gyfan o newid mewn un diagram a darparu fframwaith mesur ar gyfer monitro cynnydd.

Bwriad y diagramau o'r sbardunau yw dangos y ffactorau sy'n cyfrannu fwyaf at y canlyniadau, ar beth mae angen i bartneriaid ganolbwyntio, a dangos y cysylltiad rhwng y materion hynny (gan gynnwys y gwasanaethau a'r prosiectau sy'n gysylltiedig â nhw). Gellir gweld diagramau sbardunau fel siartiau rhesymeg strwythuredig sy'n disgrifio'r cysylltiad rhwng nod a'r gweithgareddau prosiect a roddir ar waith i'w gyflawni. Yn nodweddiadol, bydd diagramau sbardunau syml yn cynnwys tair lefel (neu fwy), gan gynnwys:

- Nod neu weledigaeth – yn yr achos hwn y canlyniad poblogaeth rydym am ei weld
- 'Sbardunau sylfaenol' – sy'n disgrifio yr hyn sy'n gorfod bod yn ei le er mwyn i'r canlyniad ddigwydd (ffactorau lefel uchel y mae angen dylanwadu arnynt i gyflawni'r nod)
- 'Sbardunau eilaidd' – sy'n disgrifio'r pethau pwysicaf y mae angen eu gwneud i gyflawni'r sbardunau sylfaenol (prosiectau a gweithgareddau penodol).

Adolygiad o'r canlyniadau a'r sbardunau sylfaenol

Cytunodd y BGLI yn flaenorol y dylid strwythuro'r asesiad hwn o amgylch ein canlyniadau a'r sbardunau sylfaenol. Ceisiodd adolygiad a gynhaliwyd ym Mawrth-Ebrill 2016 sicrhau bod gwaith cychwynnol y BGC, gan gynnwys yr asesiad, yn cyd-fynd â'r pedair elfen o lesiant (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) a'r saith nod llesiant cenedlaethol yn y Ddeddf, a chasglu barn sefydliadau sy'n aelodau ynghylch a ddylid gwneud unrhyw newidiadau eraill. Cynhwyswyd y sylwadau a dderbyniwyd mewn adroddiad a oedd yn cynnig cyfres derfynol o ganlyniadau a sbardunau sylfaenol i'w datblygu; cymeradwywyd hyn gan y BGLI a'r BGC ym mis Ebrill/Mai 2016.

Arweiniodd yr adolygiad hwn at newidiadau cyfyngedig; i bennawd cyffredinol canlyniad F – bellach 'Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt *ac ymweld â nhw*'. Hefyd cynigiwyd sbardun sylfaenol newydd ar ffurf F4 – '*Pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a chymunedol yn ôl eu hanghenion*' – yn rhannol er mwyn adlewyrchu'n llawnach y nod cenedlaethol "Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".

Nodi 'Ardaloedd Cymunedol'

Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i'r asesiad "nodi pa ardaloedd cymunedol sy'n cael eu cwmpasu gan ardal y bwrdd". Dylai'r ardaloedd hyn fod yn ddigon mawr i ddangos gwahaniaethau a meddu ar ymdeimlad o hunaniaeth, ond yn fwy eu maint na wardiau etholiadol. Yn unol ag argaeledd ystadegau cyhoeddedig, awgrymir 'ACEHI lluosog' (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yn y canllawiau.

Ym mis Ebrill 2016, bu cynrychiolwyr BGLI Abertawe yn trafod nifer o opsiynau, eu manteision a'u hanfanteision, a daethant i'r casgliad mai'r Ardaloedd Rhwydwaith Sylfaenol a Chymunedol (PCN) oedd yn cynrychioli sail ar gyfer y dull gweithredu cyffredinol mwyaf addas i Abertawe. Mae'r ardaloedd PCN yn rhan o rwydwaith Cymru gyfan o ardaloedd clwstwr Meddygon Teulu, mae ystod o ddata iechyd/clinigol (gan gynnwys ar lefel meddygfeydd Meddygon Teulu) ar gael ar y sail hon, ac fe'u defnyddir yn gynyddol, ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol yn arbennig.

Fodd bynnag, gan fod rhai o'r ardaloedd hyn yn eithaf mawr, o ran poblogaeth ac ardal, cytunwyd i edrych ymhellach ar y posibilrwydd o rannu rhai o'r mwyaf ohonynt. O ganlyniad, rhannwyd ardal y 'Bae' yn ardaloedd cymunedol 'Dwyrain y Bae' a 'Gorllewin y Bae' (gan gynyddu nifer yr ardaloedd yn Abertawe i chwech). Ceir rhestr a map o'r ardaloedd hyn fesul ACEHI yn Atodiad 2.

Mae'r Ddeddf hefyd yn datgan bod rhaid i asesiad "...gynnwys dadansoddiad o gyflwr llesiant ym mhob ardal gymunedol". Mae'r dystiolaeth a gasglwyd ynghylch pob canlyniad a sbardun yn yr asesiad yn ceisio dod â'r dystiolaeth hon i'r amlwg, i'r graddau y mae ar gael.

Casglu tystiolaeth

Er mwyn dechrau crynhoi'r dystiolaeth fanwl er mwyn llunio'r asesiad, hwylusodd Grŵp Ymchwil y BGC sesiynau lle deuai grwpiau o ddadansoddwyr ac arbenigwyr ar ddeunydd o sefydliadau a oedd yn aelodau o'r BGC ynghyd; eu rôl gyffredinol oedd coladu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol yng nghyswllt pob un o'n chwe chanlyniad llesiant cytunedig a'r sbardunau cysylltiedig, ar sail gofynion ac egwyddorion y Ddeddf a'i chanllawiau. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd fforymau partneriaeth a oedd eisoes yn bodoli, er enghraifft Partneriaeth Adfywio Economaidd Abertawe (SERP) a Fforwm Amgylcheddol Abertawe (SEF).

Er mwyn cynorthwyo'r rhai a oedd yn cyfrannu cynnwys i'r asesiad yn unigol (o bosib o amrywiaeth o ffynonellau) a'r rhai a fyddai'n crynhoi'r ddogfen derfynol, crëwyd dau dempled i'w defnyddio gan y rhai a oedd yn gweithio ar yr asesiad— gyda'r nod o ddarparu fformat cyffredin a strwythur cydlynol ar gyfer dadansoddi ar draws amrywiol feysydd pwnc.

TEMPLED TYSTIOLAETH (A): templed ar gyfer casglu tystiolaeth sy'n darparu dull o grynhoi a safoni ffynonellau unigol o dystiolaeth unigol, cyflwyno eu prif nodweddion a'u cwmpas (yn nhermau gofynion y Ddeddf), a darparu'r dadansoddiad crynodol angenrheidiol.

TEMPLED SBARDUN (B): ar gyfer cyfuno'r gwahanol ffynonellau tystiolaeth sydd gan bob sbardun. Y templed hwn yw'r sail ar gyfer cynnwys y ddogfen asesu gyfredol. Cynnwys templed sbardun (B) yn unig sydd yn y brif ddogfen.

Dyma grynodedb o'r agweddau a drafodir:

- Tystiolaeth (rhestr o'r ffynonellau a gynhwyswyd);
- Sgôr llesiant a awgrymir (0-10);
- Cryfderau Abertawe (gan gynnwys asedau lleol a gwasanaethau sy'n cefnogi'r sbardun);
- Newidiadau dros amser (gwybodaeth ynghylch tueddiadau);
- Cymharu â manau eraill;
- Gwahaniaethau yn Abertawe (e.e. yn ôl ardal gymunedol, grŵp o bobl);
- Canfyddiadau a safbwyntiau (e.e. tystiolaeth arolygon, adroddiadau ymchwil);
- Rhagolygon at y dyfodol (h.y. os bydd tueddiadau cyfredol yn parhau);
- Sut olwg fyddai ar welliant; ac
- Ynghylch y dystiolaeth (gan gynnwys cryfderau a chyfyngiadau ffynonellau, bylchau yn y data).

Camau nesaf

Ystyriwyd yr Aseiad hwn o Les Lleol ar gyfer Abertawe a chytunwyd arno gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 12 Ebrill 2017.

Fodd bynnag, er bod yr aseiad ar gyfer 2017 bellach wedi'i gwblhau, mae angen gwneud mwy o waith o hyd. Codwyd nifer o faterion yn yr ymgynghoriad na ellid cyfeirio atynt ar yr adeg hon. Nodwyd ambell ddiffyg yn y dystiolaeth hefyd a bydd angen ystyried y rhain naill ai'n lleol neu'n genedlaethol.

Yn wir, mae cyngor diweddar gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi awgrymu y dylid gweld yr aseidiadau'n fwy fel dogfen sy'n datblygu yn hytrach na fel rhywbeth sefydlog; a bod modd ei newid a'i hehangu wrth i fylchau tystiolaeth dderbyn sylw neu wrth i wybodaeth newydd berthnasol ddod i'r amlwg. Am y rhesymau hyn, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Grŵp Ymchwil yn parhau i weithio ar ddatblygu'r aseiad yn ystod y flwyddyn nesaf.